Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 14 Ionawr 2021 am 10.30 am**

**Yn Bresennol:** Cynghorydd Rob Stewart (Cyngor Abertawe) oedd yn llywyddu

**Y Cynghorwyr:**

| | |
|---|---|
| Emlyn Dole | Cyngor Sir Gâr |
| Rob Jones | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| David Simpson | Cyngor Sir Benfro |

**Cynrychiolwyr Cyfetholedig Heb bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Chris Foxall | Cadeirydd dros dro Bwrdd Strategaeth Econom Abertawe |
| Medwin Hughes | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Steve Wilks | Prifysgol Abertawe |
| Emma Woollett | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Richard Arnold | Rheolwr Cyllid (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Jonathan Burnes | Cyfarwyddwr (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd (Cyngor Abertawe) |
| Greg Jones | Swyddog Cyfathrebu a Marchnata - y Fargen Ddinesig (Cyngor Sir Gâr) |
| Karen Jones | Prif Weithredwr (Cyngor Castell-nedd Port Talbot) |
| Tracey Meredith | Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (Cyngor Abertawe) |
| Chris Moore | Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Gâr) |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr (Cyngor Abertawe) |
| Phil Ryder | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |
| Debbie Smith | Dirprwy Swyddog Monitro (Cyngor Abertawe) |
| Wendy Walters | Prif Weithredwr (Cyngor Sir Gâr) |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb: -**

---

## 22 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 23 Cofnodion.

**Penderfynwyd** llofnodi a chymeradwyo'r cofnodion canlynol o gyfarfod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe fel cofnod cywir:

1) 7 Rhagfyr 2020.

## 24 Cyhoeddiad/Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

## 25 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 26 Dyfarniad Cyllid Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 y Cydbwyllgor (Chris Moore) adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Llythyr Dyfarnu Cyllid Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a Thelerau ac Amodau cysylltiedig.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Llythyr Dyfarnu Cyllid Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a Thelerau ac Amodau cysylltiedig fel y'u hatodir yn Atodiad A i'r adroddiad yn amodol ar gymeradwyaeth y pedwar awdurdod cyfansoddol.

## 27 Cynllun Gweithredu Adolygiad y Swyddog Cyfrifyddu (ASC).

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe (Jonathan Burnes) adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ar y Cynllun Gweithredu mewn ymateb i Adolygiad y Swyddog Cyfrifyddu ac argymhellion Adolygiad Porth 0.

**Penderfynwyd** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 28 Y diweddaraf am Raglen/Brosiect(au) Bargen Ddinesig Bae Abertawe. (Llafar)

Rhoddodd Cyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe (Jonathan Burnes) yr wybodaeth ddiweddaraf am Raglenni/Brosiectau Bargen Ddinesig Bae Abertawe:

**Isadeiledd digidol**

i) Cyflwynwyd Achos Busnes i'w gymeradwyo gan Weinidogion ar 18 Rhagfyr 2020 gyda'r holl ddogfennau ategol. Rydym yn aros am adborth.

ii) Rydym am recriwtio adnodd ar gyfer y Rhaglen Isadeiledd Digidol a gwasanaethau proffesiynol ar gyfer rhai o'r ffrydiau gwaith. Cyflwynir ceisiadau am gyllid i ategu/ ychwanegu at yr hyn sy'n cael ei gyflwyno.

**Sgiliau a Doniau**

i) Caiff newidiadau i'r Achos Busnes yn dilyn adolygiadau allanol eu cyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd Portffolio ar 26 Ionawr 2021.
ii) Cynhelir gweithdy Gwersi a Ddysgwyd ym mis Ionawr 2021.
iii) Cynhaliwyd cyfarfod gyda datblygwr sector preifat sy'n awyddus i adeiladu tai gyda'r model Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer (HAPS) i rannu canolfan wybodaeth HAPS.
iv) Dechreuir recriwtio cymorth ar gyfer y Rheolwr Prosiect (PM) yn gynnar ym mis Chwefror 2021

**Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau**

i) Mae gwaith adeiladu'r arena yn mynd rhagddo.
ii) Mae cynigwyr wedi gofyn am estyniad i gyflwyno ymatebion i’r tendr adeiladu ar gyfer 71/72 Ffordd y Brenin y disgwylir iddo gau yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf. Edrychir o hyd ar ddyddiad adrodd ym mis Mawrth 2021.
iii) Trafodaethau parhaus ynghylch gosodiadau ar gyfer 71/72 Ffordd y Brenin. Cafwyd diddordeb cadarnhaol gan fusnesau. Disgwylir i benderfyniad y Cabinet ym mis Mawrth 2021 symud y cynllun yn ei flaen.
iv) Mae'r cais cynllunio ar gyfer Pentref Blychau'n mynd rhagddo a disgwylir iddo gael ei gyflwyno ym mis Chwefror 2021.

**Pentre Awel**

i) Cyflwynwyd Achos Busnes i'w gymeradwyo gan Weinidogion ar 13 Tachwedd 2020.
ii) Rydym yn aros am gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru/y DU.
iii) Byddwn yn cael rhywfaint o adborth cychwynnol yr wythnos nesaf fel y gallwn ddechrau symud ymlaen i'r cam datblygu cyn cael cymeradwyaeth ffurfiol.

**Prosiect Morol Doc Penfro**

i) Mae trafodaethau'n parhau rhwng Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau (MHPA) a Chyngor Sir Penfro ynghylch y cytundeb ariannu a newidiadau i weithgarwch y prosiect oherwydd oedi wrth gyflawni’r prosiect.
ii) Rydym yn gobeithio am gytundeb/lofnodiad yn y dyddiau nesaf a'r bwriad yw y bydd Cyngor Sir Penfro'n cymeradwyo'r allbynnau, y canlyniadau a'r effeithiau'n lleol yn unol â'r cytundeb dyfarnu cyllid gan nad oes unrhyw effaith andwyol ar fuddion y portffolio.

**Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel**

i) Cyflwynwyd Achos Busnes yn anffurfiol i'r Swyddfa Rheoli Portffolio (PoMO) ar gyfer sylwadau ym mis Rhagfyr 2020. Disgwylir ei gyflwyno’n ffurfiol i'w adolygu ar 1 Chwefror 2021.
ii) Rydym yn gweithio gydag economydd i adolygu'r Achos Economaidd yn unol â'r Llyfr Gwyrdd diwygiedig.
iii) Disgwylir mynd i gyfarfod y Bwrdd Strategaeth Economaidd (BSE) ym mis Chwefror 2021 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd.

**Campysau Gwyddorau Bywyd a Lles**

i) Cyflwynwyd Achos Busnes Amlinellol yn anffurfiol i'r Swyddfa Rheoli Portffolio (PoMO) ym mis Rhagfyr 2020 er mwyn cael adborth arno.

ii) Parheir i ymgysylltu â’r ymgynghorwyr a benodwyd (Grant Thornton)
iii) Cynhyrchwyd cynnwys fideo er mwyn cefnogi ymgysylltu a chyfathrebu
iv) Disgwylir i ni fynd i gyfarfod y Bwrdd Strategaeth Economaidd (BSE) ym mis Chwefror 2021.

**Yr Egin**
i) Mae'r gwaith i gwblhau’r cytundeb ariannu ar fin digwydd ar gyfer Cam 1.
ii) Bwriedir dyfarnu’r dadansoddiad o'r sector creadigol yn yr wythnos sy'n dechrau ar 18 Ionawr 2021 i lywio Cam 2.
iii) Mae tîm y rhaglen yn ystyried addasrwydd y datrysiad a gynigiwyd ar gyfer cyflawni Cam 2 ac a yw'r ateb hwn yn darparu'r budd mwyaf posibl i fodloni'r gofynion presennol. Mae'n bosibl y bydd y datrysiad ar gyfer cyflawni'n newid, ond ni fydd y canlyniadau a'r buddion a amlygwyd yn yr achos busnes yn newid.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.00 am

**Cadeirydd**